**Rhif: WG38844**

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Canllawiau Teithio Llesol

Dyddiad cyhoeddi: 14 Chwefror 2020
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 8 Mai 2020

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Cafodd y Canllawiau Darparu a Dylunio eu cyhoeddi'n wreiddiol yn 2014 fel dogfennau ar wahân. Mae'r ddogfen yn cael ei chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ac mae'n darparu canllawiau ar gyfer cynllunio, dylunio a chreu seilwaith teithio llesol.<br><br>Mae'r canllawiau wedi cael eu diwygio er mwyn adlewyrchu'r arferion gorau cyfredol ac i gynnwys newidiadau i reoliadau ac i'r ddwy ddogfen ganllawiau ar wahân. |
| **Sut i ymateb** | A fyddech cystal ag ymateb drwy un o'r dulliau canlynol:<br>• Llenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad<br>• Anfon eich ymateb drwy e-bost neu drwy'r post (mae'r manylion cyswllt isod)<br>• Cysylltu â ni yn teithiollesol@llyw.cymru i ddod i un o'n digwyddiadau ymgynghori a fydd yn cael eu cynnal ym mis Chwefror a mis Mawrth ar draws Cymru. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Canllawiau Teithio Llesol |
| **Manylion Cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth ac i archebu eich lle mewn sesiwn wybodaeth un i un:<br><br>Tîm Teithio Llesol<br>Yr Adran Drafnidiaeth<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>teithiollesol@llyw.cymru |

## Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu’r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy’n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae’n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi’r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu’r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion cyn cyhoeddi’ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i’w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu’r data
- (o dan rai amgylchiadau) i’ch data gael eu ‘dileu’
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Rhagair

Roedd pasio Deddf Teithio Llesol (Cymru) yn 2013 yn adlewyrchiad o'n huchelgais o sicrhau mai cerdded a beicio yw dewis diofyn pobl ar gyfer teithio'n lleol bob dydd. Roedd hefyd yn gydnabyddiaeth bod angen i ni newid y ffordd rydym yn meddwl am y ffordd rydym yn dylunio ac yn adeiladu'r isadeiledd i annog pobl i newid eu hymddygiad tuag at deithio er mwyn cyflawni hynny.

Roedd y Canllawiau Dylunio a gyhoeddwyd gennym yn 2014 yn torri tir newydd ac maent wedi cael eu hefelychu mewn mannau arall ers hynny. Mae bellach yn amser i ni eu diweddaru i adlewyrchu arfer gorau rhyngwladol, ac i gymryd y cyfle i adolygu'r Canllawiau Darparu yr ydym wedi gofyn i'n partneriaid eu dilyn dros y chwe blynedd diwethaf. Wrth baratoi'r ddogfen ymgynghori hon, buom yn gweithio'n agos gyda staff mewn awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu cynlluniau teithio llesol i ddeall sut gallwn wneud ein dull yn fwy effeithiol.

O ganlyniad, rydym wedi cyfuno'r canllawiau dylunio a'r canllawiau darparu mewn un ddogfen i leihau'r gorgyffwrdd rhyngddynt. Gobeithio bod y diweddariad wedi gwella'r llawlyfr cynllunio a dylunio cerdded a beicio a oedd eisoes yn hynod gynhwysfawr, ac wedi'i wneud yn haws ei ddefnyddio.

Rydym wedi cryfhau rhannau nad oedd o bosibl yn ddigon clir yn y canllawiau blaenorol, er enghraifft ynglŷn â'n disgwyliadau ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu. Ni allwn fyth gyflawni newid moddol oni bai ein bod yn deall y rhwystrau sy'n wynebu pobl sydd eisiau dechrau cerdded neu feicio sydd ddim yn eu hystyried fel dewisiadau amgen ymarferol ar hyn o bryd i deithio mewn car.  Rydym am i Deithio Llesol fod y peth 'normal' i'w wneud ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau byr yng Nghymru. I gyflawni hynny, mae angen i ni wrando ar y bobl hynny rydym yn ceisio eu perswadio i newid eu dull o deithio i ddeall pa fath o seilwaith fydd yn eu galluogi i wneud y newid hwnnw, a lle mae angen i'r llwybrau blaenoriaeth fynd.

Gobeithiwn y bydd y canllawiau newydd yn rhoi'r offer i'r cynllunwyr a'r peirianwyr allu gwneud hyn. Rydym wedi llwyddo i gynyddu'r buddsoddiad mewn teithio llesol yn sylweddol, gyda dros £40m wedi'i ddyrannu yn ystod 2019/20. Mae hyn yn golygu y gall ein huchelgeisiau fod yn llawer iawn mwy, a gallwn fwrw ymlaen â llawer mwy o gynlluniau ledled Cymru. Mae'r rhain yn amrywio o welliannau ar raddfa gymharol fach sy'n bosibl ym mhob man i brosiectau ar raddfa fawr sydd â'r potensial i drawsnewid patrymau teithio yn sylweddol.

Yn ogystal â derbyn ymatebion ysgrifenedig, byddwn hefyd yn cynnal digwyddiadau yn ystod y cyfnod ymgynghori a fydd yn rhoi'r cyfle i helpu i lunio'r ddogfen ganllawiau bwysig hon, yn ogystal â llunio dyfodol cyflawni teithio llesol yng Nghymru.

Byddwn yn croesawu eich sylwadau ar y Canllawiau sydd wedi'u diweddaru. Os na fydd y drafft hwn yn cyflawni ein nodau, rydym yn barod i'w newid, ond mae angen i chi ddweud wrthym…

**Lee Waters AC/AM**

**Beth yw'r prif faterion?**

Mae Canllawiau statudol yn cyd-fynd â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Cafodd y rhain eu cyhoeddi fel dwy ddogfen ar wahân yn 2014: Canllawiau Statudol ar gyfer Darparu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 (yr hyn a elwir yn Ganllawiau Darparu) a'r Canllawiau Dylunio – Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.
Mae'r ymgynghoriad hwn ar y Canllawiau drafft ar gyfer Teithio Llesol sydd wedi'i ddiwygio yn dod â'r ddau set o ganllawiau at ei gilydd, a bydd yn llywio fersiwn terfynol y Canllawiau wedi'u diwygio a fydd yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

**Ble'r ydym ni nawr?**

Mae fersiynau cyfredol y Canllawiau, a gyhoeddwyd yn 2014, ar gael yma:

- Canllawiau Statudol ar gyfer Darparu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013
- Teithio llesol: canllawiau dylunio

**Pam ydyn ni yn ei ddiwygio?**

Ers rhai blynyddoedd bellach, mae'r canllawiau cyfredol wedi cael eu defnyddio gan awdurdodau lleol ac eraill sy'n rhan o'r gwaith cynllunio a dylunio llwybrau a chyfleusterau teithio llesol, ac sy'n cyflawni'r dyletswyddau ehangach y mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn eu gosod ar awdurdodau lleol. Gwnaethom gynnal gweithdai adborth gyda defnyddwyr, ac rydym am wella'r canllawiau drwy ddefnyddio profiad y defnyddwyr. Ers cyhoeddi, mae nifer o newidiadau rheoleiddiol wedi'u gwneud sy'n berthnasol i ddyluniad seilwaith teithio llesol, fel newidiadau i Reoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig a Rheoliadau newydd ar Ddraenio Cynaliadwy. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y canllawiau diwygiedig.

**Dyma rai newidiadau arfaethedig allweddol ar gyfer Rhan 1: Darparu**

- Adlewyrchu newidiadau mewn cyfreithiau a pholisïau
- Tynnu sylw at sut mae'n berthnasol i wahanol swyddogaethau awdurdodau lleol
- Cyflwyno Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol, sy'n dod â Mapiau Llwybrau Cyfredol a Mapiau Rhwydwaith Integredig at ei gilydd yn well
- Mwy o eglurder ar fapio llwybrau teithio llesol y tu allan i ardaloedd dynodedig
- Mwy o eglurder ynghylch disgwyliadau ymgynghori ac ymgysylltu
- Mwy o bwyslais ar yr amcan o gyflawni newid moddol o deithio mewn car i deithio llesol

**Dyma rai newidiadau arfaethedig allweddol ar gyfer Rhan 2: Cynllunio a Dylunio**

- Ehangu'r bennod ymgynghori ac ymgysylltu yn sylweddol
- Newidiadau i elfennau dylunio yn dilyn cyhoeddiad Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig diwygiedig, a defnyddio'r arferion gorau newydd gan gynnwys:

- Newidiadau i niferoedd llif beiciau sy'n gysylltiedig â gofynion lled ar gyfer llwybrau beicio
- Yn y rhan fwyaf o achosion, ceisio peidio â chael llwybrau beicio sydd heb eu gwahanu ar briffyrdd
- Newidiadau i safleoedd bws – rhyngwynebau lonydd beicio

# Ffurflen Ymateb i’r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (lle bo’n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**C1:** Mae’r canllawiau diwygiedig yn ceisio dileu unrhyw beth sydd wedi’i ddyblygu yn ddiangen, ac ailfformatio’r canllawiau i un canllaw yn lle canllaw mewn dwy ran ar wahân.

A yw’r ddogfen yn gweithio’n well erbyn hyn fel un set o ganllawiau gyda statws gyfartal ar gyfer elfennau technegol a darparu?

| |
|---|
| |

**C2:** Mae’r canllawiau diwygiedig yn ceisio rhoi mwy o bwyslais ar ddyletswyddau’r Ddeddf sy’n ymwneud yn benodol â sicrhau newid moddol o ran dewis beicio a cherdded fel ffyrdd o deithio.

A yw hyn wedi’i gyflawni, ac os nad, beth hoffech chi ei weld yn cael ei ychwanegu i helpu i weithredu’r nod trosfwaol hwn?

| |
|---|
| |

**C3:** Ydych chi’n cytuno â’r bwriad o ddangos y Map Llwybrau Cyfredol a’r Map Rhwydwaith Integredig gyda’i gilydd fel Map Rhwydwaith Teithio Llesol mewn cylchredau mapio yn y dyfodol? (1.1.4 a 5.5)

| |
|---|
| |

**C4:** Mae cyd-destun y polisi wedi'i ddiweddaru er mwyn adlewyrchu deddfau a rheoliadau newydd. Mae hyn yn cynnwys esboniad o'r cysylltiadau rhwng Polisi Cynllunio Cymru 10 a Theithio Llesol, a hefyd sut mae teithio llesol yn cyd-fynd â'r egwyddorion a'r dull gweithredu a nodir yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol.

A oes yna unrhyw gysylltiadau maes polisi eraill y dylid tynnu sylw atynt, ac os felly pa wybodaeth amdanynt yr hoffech ei gweld yn cael ei chynnwys yn y canllawiau?

| |
|---|
| |

**C5:** Erbyn hyn, mae'r canllawiau yn nodi'n gliriach bod dyletswyddau'r ddeddf yn gyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol cyfan, ac mae'n rhestru adrannau sy'n arbennig o berthnasol i rai swyddogaethau. A oes rhagor o feysydd y dylid tynnu sylw atynt?

| |
|---|
| |

**C6:** Mae'r cydsyniad o ddwysedd rhwyll ar gyfer y rhwydwaith llwybrau teithio llesol wedi'i gyflwyno gyda'r bwriad o gyflawni rhwyll o 250m erbyn y trydydd tro i'r mapiau gael eu diweddaru. A yw hyn yn egluro'r amwysedd blaenorol ynghylch beth yw rhwydwaith teithio llesol? (5.6.4)

| |
|---|
| |

**C7:** Os yw eich rôl yn cynnwys cyflawni dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, a yw'r canllawiau diwygiedig hyn yn rhoi mwy o eglurder i chi ynglŷn â sut mae gwneud hynny? Os nad ydyw, beth arall hoffech ei weld yn cael ei gynnwys?

| |
|---|
| |

**C8:** Nodwch unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â Rhan 1: Darparu.

| |
|---|
| |

**C9:** Mae manylion dylunio penodol wedi'u darparu er mwyn alinio â Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016 sydd wedi'u diweddaru.

A ydych chi'n hyderus yng nghysondeb y dull sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwahanol ganllawiau, er enghraifft ynglŷn â delio â chyffyrdd neu wrth drin rhyngwynebau ffyrdd ymyl â llwybrau teithio llesol?

| |
|---|
| |

**C10:** Mae'r lled sy'n ofynnol ar gyfer llwybrau beiciau ar gyfer gwahanol fandiau llif beiciau wedi'i addasu, a allai lleihau'r gofyniad lled ar gyfer rhannau o'r rhwydwaith gan ragweld defnydd cymedrol. (DE021, DE023)

Ydych chi'n credu bod y cydbwysedd yn gywir rhwng caniatáu creu rhagor o lwybrau a chysur a diogelwch pob defnyddiwr?

| |
|---|
| |

**C11:** Mewn perthynas ag elfennau dylunio, a oes yna unrhyw nodweddion dylunio sydd heb eu cynnwys sydd, yn eich barn chi, yn hanfodol ar gyfer helpu i ddarparu cynlluniau o ansawdd uchel?

| |
|---|
| |

**C12:** Ar lefel cynlluniau unigol, bwriad y gofyniad penodol i gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn ystod y camau cynnar yw sicrhau bod ymgysylltiad llawn â'r holl ddefnyddwyr yn llywio dyluniad y cynllun.

Pa mor hyderus ydych chi y bydd y broses hon yn gwella ansawdd cynlluniau ac yn lleihau unrhyw wrthdaro posibl rhwng defnyddwyr sydd â gwahanol ofynion mynediad?

| |
|---|
| |

**C13:** Mae Pennod 11 sy'n ymwneud â Monitro wedi'i hehangu i gynnwys canllawiau mwy penodol, ac mae'n cynnwys templed.

A yw hyn yn darparu digon o eglurder?

| |
|---|
| |

**C14:** Nodwch unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â Rhan 2: Cynllunio a Dylunio.

| |
|---|
| |

**Cwestiwn A**: Mae dyletswydd arnom i ystyried effeithiau ein polisïau ar yr iaith Gymraeg, o dan ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai canllawiau Teithio Llesol yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau allai fod, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

| |
|---|
| |

**Cwestiwn B**: Eglurwch hefyd sut ydych chi’n credu y gall arfaethedig canllawiau Teithio Llesol gael ei lunio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

| |
|---|
| |

**Cwestiwn C**: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i’r afael â nhw’n benodol, defnyddiwch y lle hwn i sôn amdanynt:

| |
|---|
| |

Mae ymatebion i ymgyngoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi. I gadw eich ymateb yn ddienw (gan gynnwys cyfeiriadau ebost) ticiwch y blwch. ☐